# Ymchwiliad Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru i baratoadau yr hyn a fydd yn disodli cyllid yr UE yng Nghymru

Mai 2018

CLlLC • WLGA

# CYFLWYNIAD

1. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn cynrychioli'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ac mae'r tri awdurdod parc cenedlaethol a'r tri awdurdod tân ac achub, a'r pedwar awdurdod heddlu yn aelodau cyswllt.

2. Mae'n ceisio cynrychioli awdurdodau lleol mewn fframwaith polisi sy'n dod i'r amlwg sy'n bodloni prif flaenoriaethau ein haelodau ac yn cyflenwi ystod eang o wasanaethau sy'n ychwanegu gwerth i Lywodraeth Leol Cymru a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

3. Rydym yn croesawu'r cyfle i ymateb i Ymchwiliad Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru i baratoadau'r hyn a ddaw yn lle cyllid yr UE yng Nghymru pan fydd y DU yn gadael yr UE.

4. Mae CLlLC yn gweithio'n rhagweithiol ac yn cyfathrebu'n rheolaidd â'i haelodau ar faterion yn ymwneud â Brexit, yn cynnwys yr hyn a ddaw yn lle cyllid yr UE a'r goblygiadau ar gyfer polisi rhanbarthol a gwledig. Mae ein hymateb yn ystyried cydfarn llywodraeth leol ar draws Cymru, fel Awdurdodau Lleol unigol mewn rhai achosion, ac fel rhan o Bartneriaethau Rhanbarthol ehangach mewn eraill.

5. Edrychwn ymlaen at barhau i weithio wrth i ddatblygiadau ar y maes polisi allweddol hwn yn parhau i ddatblygu.

# Prif Negeseuon

6. Mae Llywodraeth Leol wedi bod yn bartner allweddol i sicrhau Cyllid yr UE yng Nghymru yn ystod cyfnod sawl rhaglen. Mae Llywodraeth Leol yn chwarae rôl allweddol i sicrhau gweithgaredd wedi'i gyllido gan yr UE o fewn ardaloedd a rhanbarthau trwy ddarparu cynlluniau refeniw a chyfalaf uniongyrchol sy'n cefnogi gwelliannau i leoedd ac yn helpu pobl i fynd yn ôl i fyd gwaith. Mae Awdurdodau Lleol hefyd yn chwarae rôl strategol i ddarparu rhaglenni'n lleol trwy reoli a chydlynu'r cronfeydd ar lefel leol, fel Buddiolwyr Arweiniol neu Gyrff Arweiniol - gan gymryd cyfrifoldeb am reoli risg a gwariant lleol, er mwyn lleihau'r baich gweinyddol i drydydd partïon i hwyluso mynediad i'r rhaglenni gan fudd-ddeiliaid a grwpiau lleol.

7. Mae Llywodraeth Leol hefyd yn chwarae rôl ganolog ym modelau datblygu economaidd â ffocws rhanbarthol sy'n datblygu, a helpu i gydlynu'n strategol y broses o ddarparu

cyllid yr UE yn y cyfnod 2014-20 yn gyson â strwythurau partneriaeth rhanbarthol drwy'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol[1].

8. Mae'r holl waith cyflawni'n lleol. Dim ond trwy gyfuno ymdrechion gan bartneriaid ar draws rhanbarthau Cymru, ar draws bob sector a bob lefel o Lywodraeth, wedi'i gynllunio a'i gyd-ddylunio mewn partneriaeth - y gellir cyflawni canlyniadau economaidd llwyddiannus.

9. **Prif flaenoriaeth i Gymru yw deall rheolau ymgysylltu ar gyfer cael mynediad i'r hyn a ddaw yn lle cyllid yr UE ar ôl Brexit.** Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n gwbl gefnogol i'r lobïo gan Lywodraeth Cymru ar Lywodraeth y DU i barchu'n llawn y broses o ddatganoli polisi a chyllid datblygu economaidd, a sicrhau cyllid llawn yn lle cyllid yr UE i Gymru. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes fawr ddim sicrwydd, os o gwbl, o natur y cyllid na'r drefn o'i lywodraethu yn y dyfodol. Mae gan hyn oblygiadau i'r fframweithiau polisi a llywodraethu sydd gennym yng Nghymru o ran ein gallu i gael mynediad i gyllid lefel-DU er mwyn cystadlu ochr yn ochr â strwythurau yn Lloegr a'r cenhedloedd datganoledig eraill.

10. Yn ddiweddar ymatebodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru dan y teitl "Buddsoddiad Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit". Mae'r ymateb yn adeiladu ar rai o'r prif faterion a amlinellir yn yr ymateb hwnnw, mae ymateb CLlLC ar ein gwefan [2].

## Cynllunio ariannol ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru

11. Wrth ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad hwn, mae'n bwysig cydnabod yn gyntaf hyd a lled y gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd drwy gronfeydd UE, a beth a olygir wrth "gyllid UE" a weinyddir ar hyn o bryd ar lefel Cymru, y byddwn yn colli mynediad iddo wrth adael yr UE:

    - Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (ERDF/ESF)
    - Rhaglen Datblygu Gwledig (EAFRD) a chymorth Pilar 1 PAC
    - Rhaglen Drawsffiniol Iwerddon-Cymru (ETC; ar y cyd ag Iwerddon)

12. Hefyd, mae'n bwysig ystyried y cronfeydd Ewropeaidd ehangach (e.e. Horizon 2020, Erasmus, Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol eraill – Ardal yr Iwerydd a Gogledd

[1] https://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/applying/?skip=1&lang=cy
[2] http://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&fileid=1531&mid=665

Orllewin Ewrop ayb) sy'n cael eu rheoli ar lefel Ewropeaidd, y byddwn yn gallu, neu ddim yn gallu cael mynediad iddynt ar ôl Brexit. Yn ddiweddar bu i Lywodraeth y DU[3] ailddatgan ei fod yn cydnabod pwysigrwydd mynediad parhaus i rai o'r rhaglenni hyn, mae'r cwestiwn a fyddwn yn parhau i gael mynediad i'r rhain ynghlwm â'r trafodaethau ar y ddêl Brexit derfynol.

13. Ar hyn o bryd mae llawer iawn o ansicrwydd ynglŷn â'r cwestiwn beth a ddaw yn lle cyllid yr UE yng Nghymru. Tra bod cyhoeddiadau cychwynnol wedi'u gwneud ar lefel DU ynglŷn â datblygu Cronfa Ffyniant Gyffredin, a chymorth amaethyddol ar ôl Brexit, ni fu unrhyw fanylion pellach o bwys ar natur, ffurf neu argaeledd ffrydiau cyllido a fydd yn dod "yn lle cyllid yr UE".

14. I bob golwg felly, yn nhermau'r cronfeydd Strwythurol a Gwledig hynny y byddwn yn colli mynediad iddynt; gallem fod yn edrych ar dair senario bosibl ar gyfer llywodraethu/rheoli'r hyn a ddaw yn lle cyllid yr UE o gronfeydd a reolir ar lefel DU, o ran cronfeydd wedi'u datganoli i Gymru, neu ddim cyllid yn ei le o gwbl. I gymhlethu pethau ymhellach, gallem gael cymysgedd o'r senarios llywodraethu hyn ar draws nifer o feysydd polisi.

15. Rydym yn gwbl ymwybodol, ac yn gwbl gefnogol i'r lobio gan Lywodraeth Cymru ar Lywodraeth y DU i barchu'n llawn y setliad datganoli o safbwynt datblygiad economaidd a pholisi a chyllid amaethyddol a datblygu gwledig, ac i sicrhau cyllid llawn yn lle cyllid y DU i Gymru.

16. Fodd bynnag, nid ydym yn sicr ynglŷn â natur y gwaith cynllunio yng Nghymru ar gyfer y senario cyllid annatganoledig bosibl. Dylai fod yn brif flaenoriaeth fod Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn deall rheolau ymgysylltu ar gyfer cael mynediad i unrhyw gyllid a ddaw yn lle cyllid yr UE ar ôl Brexit. Mae angen i hyn ystyried yn llawn sut mae budd-ddeiliaid Cymru'n cael mynediad ac yn rhyngweithio ag unrhyw ddulliau polisi dan arweiniad y DU, ac ystyried sut mae ein partneriaethau Datblygu Economaidd Rhanbarthol sy'n datblygu a'r dulliau'n "addas i'r pwrpas" i gystadlu ochr yn ochr â Phartneriaethau Menter Lleol ac Awdurdodau Cyfun yn Lloegr.

17. Hefyd, rydym ar hyn o bryd yn ansicr o oblygiadau unrhyw ddêl Brexit (neu ddiffyg dêl) i'n heconomi ar lefel Macro (lefel DU), a'r dylanwadau yn sgil hynny ar Gymru a'i economïau rhanbarthol. Wrth i drafodaethau ar ddyfodol ein perthynas â'r UE ddatblygu,

[3] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/699106/UK_position_paper_on_future_of_cohesion_policy_.pdf

gallai nifer o wahanol senarios ddatblygu a allai ddylanwadu ar ffurf a natur yr economi ar wahanol lefelau.

18. Felly mae'n hollbwysig bod ymdrech gref, ymroddgar a rhagweithiol gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'i budd-ddeiliaid yng Nghymru i nodi, mapio a chynllunio'r goblygiadau posibl hyn - er mwyn i'r ymatebion polisi yn eu sgil fod yn gydlynol, yn gydgysylltiedig ac yn addas i'r pwrpas - gan ymateb i'r sefyllfa gyllido ar ôl Brexit.

## Dulliau gweinyddol ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru pan fydd y DU yn gadael yr UE

19. Yn nhermau cyllid Strwythurol a Gwledig yng Nghymru, mae'r rhain wedi eu rheoli ar lefel genedlaethol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer sawl cyfnod rhaglennu, yn unol â'i gallu datganoledig.

20. Mae hyn yn sicrhau bod gan Gymru, a budd-ddeiliaid Cymru lais yn y broses o gynllunio a chyflawni'r ffrydiau cyllido sy'n effeithio ar eu hardaloedd - yn nhrefn pethau trwy egwyddorion gweithio mewn partneriaeth ac is-reolaeth Ewropeaidd.

21. Pe na bai cyllid yn cael ei ddatganoli i lefel Cymru (rheoli ar lefel DU), byddai newidiadau sylweddol yn syth i'r ffordd y mae budd-ddeiliaid Cymru yn draddodiadol wedi ymgysylltu â chael mynediad i'r hyn oedd yn "gyllid yr UE" yn hanesyddol.

22. Pe byddai cyllid yn aros ar lefel y DU, efallai nad cwestiwn o weinyddu ar lefel Cymru fydd yn berthnasol, ond yn hytrach cwestiwn o gydlynu strategol a chefnogaeth i fudd-ddeiliaid Cymru allu cael mynediad i'r cronfeydd hyn, a bod strwythurau cefnogi perthnasol (e.e. partneriaethau rhanbarthol) yn addas i'r diben i hwyluso mynediad, a chystadlu ar "yr un lefel" ag ardaloedd eraill y DU am gyllid.

23. A chymryd y byddai cyllid yn cael ei ddatganoli i Gymru, byddai nifer o ystyriaethau ar gyfer gweinyddu cyllid yn y dyfodol i sicrhau bod dyluniad y rhaglenni'n ystyried yn llawn y drefn lywodraethu sy'n esblygu a'r cyd-destun polisi sy'n gyrru datblygu economaidd yng Nghymru (yn bennaf, y modelau rhanbarthol yn sgil datblygu economaidd trwy Fargenion Dinesig a Thwf).

24. <u>Yr achos ar gyfer cyllid parhaus:</u> Rydym yn gwbl gefnogol i ymdrechion Llywodraeth Cymru i sicrhau nad yw Cymru'n colli allan yn ariannol o ganlyniad i'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd.

25. Mae Polisi Rhanbarthol yr UE yn bodoli i wella lles economaidd rhanbarthau ac mae'r fframwaith polisi ar lefel Ewropeaidd yn gogwyddo tuag at lefelau cyllido uwch i'r rhanbarthau hynny lle mae lefelau perfformiad economaidd yn gymharol isel. Yng Nghymru, mae hyn wedi sicrhau ein bod, yn draddodiadol, wedi bod yn gymwys i dderbyn y lefelau uchaf o gyllid ar gael. Gan gydnabod maint yr her mewn ymateb i anghenion arbennig a chyfleoedd yr ardaloedd hynny sydd ar ei hôl hi; helpu pobl yn yr ardaloedd hynny i gael hyd i swyddi neu ddatblygu opsiynau lleol ar gyfer gwaith, yn cynnwys seilwaith i wella mynediad a symudiad o fewn yr ardaloedd a nodwyd.

26. Mae Polisi Gwledig yr UE hefyd wedi sicrhau bod cyllid wedi bod ar gael i gefnogi ymyriadau i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y mae ardaloedd gwledig yn eu hwynebu. Mae cyllid EAFRD wedi sicrhau bod Cynllun Datblygu Gwledig ar wahân ar gyfer Cymru, sydd wedi'i deilwra i anghenion, heriau a chyfleoedd penodol ardaloedd gwledig yng Nghymru.

27. <u>Dull rhaglennu:</u> Er bod Brexit yn rhoi cyfle i wneud pethau'n well e.e. mae cael gwared ar ffiniau rhaglenni artiffisial yn fodd i ddatblygu ymyriadau sy'n adlewyrchu ardaloedd gweithgar yn economaidd, cael gwared ar ffocws thematig a'r cyfle i ddatblygu neu berchnogi rheolau a rheoliadau sy'n fodd i ddatblygu dull mwy integredig a symlach. Hefyd mae nifer o nodweddion yr hoffem eu cadw, fel y sicrwydd cynllunio yn sgil rhaglenni aml-flwyddyn, yn ogystal â'r egwyddor partneriaeth ac is-reolaeth oedd yn berthnasol wrth gynllunio a chyflawni'r rhaglenni.

28. Yn draddodiadol, mae partneriaid wedi gorfod ymgeisio am ffrydiau cyllido cyfalaf a refeniw ar wahân, wrth gystadlu, gyda phob rhaglen â'i threfniadau rheoli rhaglen ei hun, meini prawf buddsoddi a gwahanol ofynion gweinyddol. Yn anochel mae hyn wedi arwain at fuddsoddi mewn seilos, diffyg integreiddio a'r ffit strategol sydd ei angen i gael effaith ystyrlon ar economi'r rhanbarth.

29. Rydym yn awyddus i weld Cymru'n manteisio'n llawn ar hyn trwy ddatblygu Cronfa Unigol, cyfuno cyfalaf refeniw, a phrosesau llawer symlach i gael mynediad i gyllid, a'i ddarparu.

30. <u>Model datblygu economaidd â ffocws rhanbarthol - cymryd dull economi cyfan:</u> Mae Cymru'n rhanbarth o gyfleoedd ac anghenion gwahanol. Mae'r gwahaniaeth hwn rhwng ein hardaloedd yn mynd y tu hwnt i gategorïau traddodiadol "gwledig" a "threfol" neu rannu'r economi i sectorau economaidd traddodiadol.

31. Bydd llymder parhaus sy'n effeithio ar ein sefydliadau sector cyhoeddus a goblygiadau posibl Brexit yn effeithio ar ein hardaloedd mewn gwahanol ffyrdd. Bydd angen ymatebion wedi'u teilwra i'r gwahanol heriau a chyfleoedd sy'n sensitif i fethiant y farchnad yn yr ardaloedd penodol hynny - ac yma mae cryfder y dull rhanbarthol. Rhoi ffocws ar anghenion a chyfleoedd penodol pob ardal yn y rhanbarth, wedi'u cyflawni'n lleol fel rhan o strategaeth ranbarthol gydweithredol ehangach o fewn fframwaith polisi cenedlaethol cyffredinol. Fel enghraifft, bydd yr achos busnes i gyflwyno datblygiad safleoedd ac eiddo yn Wrecsam yn wahanol i safleoedd yng Ngwynedd a Môn dyweder. Fodd bynnag, mae pob buddsoddiad yn cyd-fynd ag amcanion polisi cenedlaethol (gallu darparu safleoedd ac eiddo modern i ganiatáu i fusnesau dyfu yn ogystal â denu cyfleoedd buddsoddi). Nodir y rhain ar lefel rhanbarthol a'u blaenoriaethau ar y cyd fel prif ffactor cymhelliant i ysgogi twf busnes trwy ymateb i'r galw; ond yn cael eu darparu'n lleol - yn sensitif i nodweddion economaidd a chymdeithasol yr ardal er mwyn sicrhau buddsoddiadau cynaliadwy sy'n addas i'r pwrpas.

32. Nid yw cydlynu rhanbarthol cadarnach yn golygu newid i fodel darparu uwch na haen ychwanegol o lywodraethu - ond yn hytrach cyfuniad o ddulliau newydd a datganoli i gyflawni blaenoriaethau a chyfleoedd rhanbarthol o fewn fframwaith polisi cenedlaethol cyffredinol trwy gyflawni'n lleol.

33. Mae gan bartneriaethau a budd-ddeiliaid lleol rôl hollbwysig i nodi'r gwahaniaethau o ran angen a chyfle, yn sensitif i gymhlethdodau lle ac ardaloedd ar draws y rhanbarth. Mae nifer fawr o strwythurau cyflawni a phartneriaethau wedi'u datblygu i helpu i ddarparu rhaglenni Strwythurol a Gwledig Ewropeaidd - yn benodol mewn ymateb i anghenion penodol grwpiau poblogaeth neu ardaloedd daearyddol penodol (e.e. grwpiau LEADER trwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig neu rwydweithiau/modelau cyflawni penodol sy'n targedu pobl ymhellach i ffwrdd o'r farchnad lafur). O safbwynt hyn, dylid gwneud pwynt ychwanegol o ran y rôl y mae LEADER wedi'i chwarae i hwyluso'r broses o dreialu cysyniadau arloesol/cynigion mewn risg. Mae hyn wedi bod yn fodd i gyflwyno nifer o brosiectau treialu/peilot sydd ers hynny wedi symud ymlaen i brif ffynonellau cyllido neu eraill.

## Casgliad

34. Mae buddsoddi mewn polisi rhanbarthol i'r dyfodol yn hanfodol os yw rhanbarthau Cymru am ddal i fyny a chystadlu ar lefel-DU heb sôn am ar lefel Ewropeaidd neu ryngwladol ar ôl Brexit. Dylai lefelau cyllido gyfateb i raddfa ac uchelgais ymyriadau wedi'u blaenoriaethu'n rhanbarthol i sicrhau bod y lefel cywir o fuddsoddiad yn mynd i'r

afael â'r ymyriadau priodol. Felly mae'n hanfodol bod polisi gwledig a rhanbarthol yn y dyfodol yn cyd-fynd â'r model datblygu â ffocws economaidd, gan gymryd "dull economi cyfan" i sicrhau ein bod yn buddsoddi yn y blaenoriaethau cywir yn yr ardaloedd cywir, trwy'r modelau cyflawni/partneriaid mwyaf priodol - gan ategu ac integreiddio ffrydiau cyllido domestig eraill a phrif ddatblygiadau i sicrhau twf cynhwysol. Mae'n hanfodol bod cynllunio economaidd a buddsoddi'n cael eu cyd-gynllunio a'u cytuno ar y cyd gan gyrff rhanbarthol a llywodraeth genedlaethol, gan ystyried y realiti o sut mae economïau rhanbarthol yn gweithio mewn gwirionedd; fel arall ni fydd y potensial o gyllid yn lle cyllid yr UE wedi'i weinyddu gan Gymru, na chael mynediad i Strategaethau Diwydiannol Lleol dan arweiniad y DU fyth yn cael ei wireddu.

**Am wybodaeth bellach cysylltwch â:**

**Carwyn Jones Evans - Swyddog Polisi Datblygu Economaidd ac Adfywio**
**Carwyn.JonesEvans@wlga.gov.uk**

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd
CF10 4LG

Rhif ffôn: 029 2046 8515